# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Shelly Jones**

**Caergybi**



## Dyddiad Cyhoeddi

**1 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Shelly Jones yn rhedeg ei gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref yn Llanfihangel yn Nhowyn, sy'n agos iawn at dref borthladd Caergybi ar Ynys Môn. Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru i ofalu am uchafswm o 10 o blant, o fabanod i blant hyd at 12 oed. Mae'r oriau gweithredu yn hyblyg yn dibynnu ar anghenion y teuluoedd ond ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 7:30am a 7:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth a chaiff rhywfaint o Gymraeg ei defnyddio hefyd. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn llawn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn ffynnu mewn amgylchedd magwrus sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl ac wedi derbyn digon o hyfforddiant er mwyn sicrhau ei bod yn gwybod sut i gadw ei phlant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r amgylchedd yn addas ac yn diwallu anghenion y plant gyda digon o adnoddau ar gael ar eu cyfer. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi digon o weithdrefnau rheoli risgiau ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaethau â'r rhieni ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y teuluoedd.

### 2. Gwelliannau

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol mewn perthynas â chynnal ymarferion tân ac adolygu ac adrodd yn ôl ar ansawdd y gofal yn y gwasanaeth. Ar y diwrnod, gwelsom nad oedd y rhain yn effeithio ar ofal y plant; felly rydym wedi dwyn y rhain i sylw'r gwarchodwr plant a dweud wrthi fod yn rhaid mynd i'r afael â nhw.

Gwnaethom argymhellion hefyd mewn perthynas â'r amgylchedd a rhoi gweithdrefnau rheoli risgiau a heintiau effeithiol ar waith er mwyn lleihau'r risg o ledaenu heintiau.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau cadarnhaol a chânt eu hannog i fynegi eu barn. Maent yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel oherwydd y gofal parhaus y maent yn ei dderbyn. Mae'r plant yn egnïol, yn ddysgwyr chwilfrydig ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn y maent yn ei wneud; maent hefyd yn cael cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gwblhau tasgau addas drostynt eu hunain er mwyn datblygu eu hannibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser.

Cafodd y plant eu hannog a'u cefnogi'n llawn i ddewis yr hyn roeddent am ei wneud. Gwelsom y plant yn estyn y teganau roeddent am chwarae â nhw ac yn gofyn ynglŷn â pha deganau nad oedd hawl ganddynt i'w hestyn, megis yr offerynnau cerdd. Roedd y plant yn mynegi eu barn ac yn gwybod y byddai'r staff yn gwrando arnynt ac yn ystyried eu barn. Gofynnodd un plentyn a oedd eisoes wedi cwblhau gweithgaredd crefft p'un a fyddai'n gallu paentio unwaith eto ac estynnodd y staff yr adnoddau yr oedd eu hangen arni ar unwaith ac aeth y plentyn ati i baentio llun yn frwdfrydig; gan ddewis y lliwiau yn ofalus iawn.

Mae'r plant yn defnyddio dulliau arloesol ac yn meithrin hyder am eu bod yn cael eu hannog i wneud dewisiadau ac yn cael cymorth da i ddysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel mewn amgylchedd gofalgar.

Roedd gan y plant gydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant a'i theulu, ac roeddent yn hyderus ac yn teimlo'n gartrefol yn eu hamgylchedd. Roeddent yn gyfforddus yn siarad â'r rheini o'u cwmpas; gwelsom y plant yn cofleidio ac yn gwenu ar ei gilydd. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn; gan roi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Roedd y plant yn gwybod ei bod hi'n amser cinio a dywedwyd wrthym y byddent yn mynd i'r ysgol nes ymlaen.

Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn, sy'n eu cefnogi i feithrin eu hyder.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda â'r gwarchodwr plant a'r rheini o'u cwmpas.

Siaradodd y plant â'r rheini o'u cwmpas yn frwdfrydig ac roedd yn amlwg eu bod yn gyfarwydd â'i gilydd, gan ddangos caredigrwydd a pharch. Er enghraifft, helpodd y plant

hŷn i ofalu am y plant iau, gan wneud yn siŵr eu bod yn iawn o bryd i'w gilydd a rhannu'r teganau roeddent yn mwynhau chwarae â nhw. Roedd y plant yn gofalu am yr offer a'r adnoddau yn briodol; roeddent yn dilyn cyfarwyddiadau i dacluso cyn estyn teganau eraill. Roedd y plant yn gwybod ble i gadw'r adnoddau; er enghraifft gwelodd un plentyn flanced fach yn y gegin a dywedodd *'this does not belong here'.* Yn dilyn trafodaeth â'r gwarchodwr plant, cytunwyd bod y flanced yn perthyn i'r tŷ doliau a sicrhaodd ei bod yn cael ei dychwelyd yn ddiogel.

Mae'r plant bob amser yn gwrtais ac yn dangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dylanwadu ar y tasgau a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt ac yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Roeddent yn dilyn eu diddordebau wrth gasglu gwahanol deganau a dewis pryd roeddent am gymryd rhan mewn gweithgaredd a arweinir gan oedolyn. Gwnaeth y plant hefyd fwynhau cyfnodau tawelach yn ymlacio. Casglodd y plant lyfrau o'r dewis a oedd ar gael ac eistedd gyda'i gilydd gan wrando ar y stori yn cael ei darllen iddynt yn syth. Ymunodd y plant â digwyddiadau'r stori ac ateb y cwestiynau'n frwdfrydig mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad. Roedd y plant yn awyddus i drafod yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud a gwnaethant ddangos y teganau a oedd ar gael iddynt chwarae â nhw.

Caiff y plant gyfleoedd chwarae a dysgu boddhaus sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Caiff y plant eu cymell yn naturiol i ddewis a chwblhau tasgau drostynt eu hunain.

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da; mae ganddynt gydberthynas gadarn â gwarchodwr plant cyson ac sy'n eu hannog i feithrin hyder. Roedd y plant yn ymfalchïo yn y tasgau roeddent yn eu cwblhau, gan ddangos eu bod yn gallu bwyta eu cinio heb fawr ddim cymorth a dangos eu gwaith a oedd wedi'i arddangos ar y waliau yn llawn balchder. Roedd y plant yn gallu cwblhau pethau drostynt eu hunain gan fod ganddynt sgiliau hunangymorth priodol, megis defnyddio'r toiled. Dilynodd y plant eu diddordebau personol a gwelsom un plentyn yn mwynhau edrych mewn drôr a oedd yn cynnwys amrywiaeth o eitemau gwahanol. Enwodd y plentyn bob eitem a welodd, gan ddewis chwarae gyda rhai ohonynt am gyfnod byr o amser cyn dychwelyd i weld pa drysorau eraill yr oedd yn gallu dod o hyd iddynt.

Mae'r plant yn hyderus ac yn annibynnol; maent wedi'u cymell i arbrofi a bod yn ddychmygus.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio rhoi arferion cadarnhaol ar waith ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n annog ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus, gan wneud i'r plant deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a sicrhau y caiff eu hyder ei ddatblygu. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth briodol o gyfleoedd chwarae a dysgu ac yn diwallu anghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn cymryd camau rhesymol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Dangosodd y gwarchodwr plant fod ganddi ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau o ran diogelu. Rhoddwyd rhai elfennau o'r adnodd archwilio rheoli heintiau ar waith; cafodd y byrddau eu glanhau cyn bwyta, ond ni chafodd dwylo'r plant eu golchi â dŵr a sebon fel yr argymhellir ac ni ddefnyddiwyd tywelion llaw unigol. Mae'r gwarchodwr plant yn paratoi'r holl fyrbrydau a phrydau ac mae wedi mynychu cyrsiau maeth yn y gorffennol. Caiff gweithgarwch corfforol ac amser yn yr awyr agored eu hintegreiddio bob dydd drwy deithiau cerdded i'r ysgol gyfagos, chwarae yn yr ardd ac ymweld â lleoedd o ddiddordeb lleol. Cafodd yr ymarfer tân diwethaf ei gynnal ym mis Mawrth 2017, ac mae hyn yn torri'r Rheoliadau gan fod angen cynnal ymarferion tân bob chwe mis o leiaf. Trafodwyd hyn gyda'r gwarchodwr plant a dywedwyd wrthi bod angen mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y ddamwain ddiwethaf yn 2016 a doedd dim unrhyw gofnodion diweddar o roi meddyginiaeth i blant.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio rhoi arferion cadarnhaol ar waith i hyrwyddo iechyd a llesiant y plant.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu'n gyson ac yn rhoi amser a sylw unigol i'r plant.

Dangosodd y gwarchodwr plant fod ganddi ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, gan ei bod yn teilwra'r rhyngweithio i blant unigol yn seiliedig ar eu hoedran a'u cam datblygu. Roedd y gwarchodwr plant yn fodel rôl cadarnhaol, gan ei bod yn modelu ymddygiad priodol ac yn dathlu ymddygiad da bob amser. Gwnaethom glywed llawer o ganmoliaeth ac anogaeth, a chafodd y plant eu llongyfarch yn rheolaidd am eu cyfraniadau cadarnhaol a brwdfrydig. Er enghraifft, ar ôl cwblhau'r gweithgaredd crefft a gynlluniwyd ar eu cyfer. Roedd y gwarchodwr plant yn gwerthfawrogi cyfraniad y plant yn fawr gan sicrhau nad oedd yn symboleiddiol er mwyn annog a galluogi pawb i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio dull teg bob amser, gan sicrhau bod ei disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir a'i bod yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r plant.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar.

Roedd y gwarchodwr plant yn deall ac yn diwallu anghenion unigol y plant. Er enghraifft, cafodd y gweithgareddau eu dewis a'u cynllunio yn dibynnu ar y plant a oedd yn bresennol, eu diddordebau a'u cam datblygu. Cynlluniwyd gweithgareddau penodol ar gyfer y plant hŷn gan ystyried eu gofynion. Mae'r drefn ddyddiol yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r plant ac roedd y gwarchodwr plant yn eu cefnogi i roi'r teganau i gadw yn ystod amser cinio ac roeddent yn gwybod y gallant archwilio a gofyn am adnoddau ychwanegol os oeddent am wneud hynny yn ystod amser chwarae rhydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio profiadau chwarae a dysgu yn briodol ac yn ystyried anghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd addas i'r plant, ond nid yw'n rhoi gweithdrefnau rheoli risgiau effeithiol ar waith ar hyn o bryd. Mae digon o deganau ar gael ac mae eu hansawdd yn briodol.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Nid yw'r gwarchodwr plant yn rhoi asesiadau risg effeithiol ar waith ond ni welsom unrhyw risgiau amlwg i ddiogelwch y plant ar y diwrnod.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ddigonol o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r plant yn ddiogel. Roedd y gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn teilwra'r gofal a ddarperir yn dibynnu ar grŵp oedran y plant yn ei gofal. Roedd manylion cyswllt mewn argyfwng ar gael ac roedd gan y gwarchodwr plant broses i'w dilyn mewn argyfwng. Ni welsom unrhyw risgiau amlwg i ddiogelwch y plant. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn cofnodi asesiadau risg felly nid oedd unrhyw dystiolaeth yn dangos ei bod wedi ystyried y risgiau i ddiogelwch y plant a'r dull a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael ag unrhyw ddigwyddiadau a nodwyd er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae larymau tân newydd wedi cael eu gosod yn dilyn gwiriad diogelwch tân gan y gwasanaeth tân. Fodd bynnag, cafodd yr ymarfer tân diwethaf ei gynnal ym mis Mawrth 2017, felly, nid oedd unrhyw dystiolaeth eu bod wedi'u cynnal yn rheolaidd. Nid oes trefn lanhau benodol ar waith ac yn hytrach, mae'r gwarchodwr plant yn glanhau eitemau a'r amgylchedd yn ôl y gofyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio dull gweithredu sylfaenol er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu digonedd o le i ddiwallu anghenion y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n addas i blant. Mae'r ystafell chwarae fawr yn galluogi'r gwarchodwr plant i gynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae sy'n addas i bob oedran. Mae cynllun a dyluniad yr ystafell yn ystyried safbwynt y plant ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r holl gyfleusterau wedi'u lleoli ar yr un llawr er mwyn galluogi'r plant i gwblhau tasgau addas drostynt eu hunain. Mae gan y gwarchodwr plant ardal chwarae fawr yn yr awyr agored, a chaiff ei defnyddio'n aml. Mae'r teganau a'r adnoddau priodol sydd ar gael i'r plant o dan ei gofal yn gwneud yr ardal yn apelgar iddynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd sydd â digonedd o le ac sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig ystod eang o adnoddau addas sy'n briodol i'w hanghenion.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas o ansawdd da, dan do ac yn yr awyr agored, ar gael i'r plant. Roedd digon ohonynt ar gael er mwyn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth a dewis eang. Gwelsom y plant yn mynd i ddewis beth roeddent am chwarae â nhw ac roeddent yn gyfarwydd â'r hyn a oedd ar gael. Gwnaethant fwynhau edrych yn y droriau gwahanol a chael pleser o ddod o hyd i'r hyn roeddent yn chwilio amdano. Roedd yn hawdd cael gafael ar yr adnoddau gan eu bod wedi'u storio'n dda. Byddai labelu'r holl ddroriau yn cefnogi'r plant i ddewis beth maent am chwarae ag ef ymhellach.

Mae'r ystod eang o adnoddau yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu ysgogol a diddorol i'r plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth sefydlog a chyflawnadwy ar gyfer ei gwasanaeth. Caiff anghenion y plant eu diwallu'n briodol mewn ethos cadarnhaol ac yn sgil ymroddiad y gwarchodwr plant i'w rôl. Nid yw'r systemau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gyson, ond mae'r gwarchodwr plant yn darparu parhad gofal i'r plant ac yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth dderbyniol ar gyfer ei gwasanaeth er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi cadw ei datganiad o ddiben yn gyfredol ac roedd ganddi bolisïau a gweithdrefnau er mwyn cyfleu'r dull y mae'n ei ddefnyddio i redeg ei gwasanaeth. Mae'r gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar anghenion y plant ac yn sicrhau y cânt eu diwallu. Mae'r gwarchodwr plant yn creu ethos sy'n ddigon cadarnhaol lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gytbwys o arfer gorau presennol sy'n berthnasol i'r plant yn ei gofal ac mae'n teilwra ei gwasanaeth yn unol â hynny, gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau gwahanol i hyrwyddo datblygiad a meithrin hyder a hunan-barch.

Mae gan y gwarchodwr plant ymdeimlad cadarn o ddiben.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio dull sylfaenol i gasglu barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgynghori â'r plant yn rheolaidd ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w barn a'u ceisiadau, megis darparu gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt a'r adnoddau y maent yn gofyn amdanynt o fewn rheswm. Mae'r gwarchodwr plant yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio. Roedd y gwarchodwr plant wedi darparu adolygiad o ansawdd y gofal yn 2017, ond nid oedd wedi parhau i wneud hyn yn flynyddol. Nid yw'n rhoi strategaethau ar waith i gasglu adborth ar y gwasanaeth nac yn defnyddio'r wybodaeth yn gadarnhaol er budd y gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei gwasanaeth yn dda ac yn rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn mynychu hyfforddiant perthnasol ac yn sicrhau parhad gofal i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn sicrhau y caiff gwiriadau ffitrwydd eu diweddaru fel y bo'n briodol. Cafodd y tystysgrifau DBS eu diweddaru ac roedd yr holl hyfforddiant gofynnol yn gyfredol. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofrestri dyddiol cywir ac yn cynllunio ar gyfer y plant a fyddai'n mynychu'r gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei hamser yn effeithiol, yn cynllunio gweithgareddau mewn ffordd ymatebol ac yn ymateb i ofynion y gwasanaeth megis casglu plant o'r ysgol. Mae system newydd wedi cael ei rhoi ar waith ers dechrau'r flwyddyn, lle y mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol mewn dyddiadur, a dywedodd fod hyn yn gweithio'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn gosod targedau priodol iddi ei hun.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd a llesiant y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn ffynnu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd y plant, a chaiff hyn ei gyflawni yn bennaf drwy gyfathrebu ar lafar wrth iddynt ollwng a chasglu'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn anelu at feithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu mewn ffordd glir. Roedd y rhieni yn darparu gwybodaeth fanwl ar lesiant y plant ac roedd hyn yn galluogi'r gwarchodwr plant i deilwra'r gofal a ddarperir i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion a bod y plant wedi setlo ac yn hapus yn y cartref. Mae'r rhieni yn derbyn y gwaith y mae'r plant wedi'i gwblhau yn aml. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod gweithredol o'r gymuned, ac yn gwneud defnydd da o amwynderau lleol a lleoedd o ddiddordeb cyfagos.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yn gadarnhaol er mwyn hyrwyddo canlyniadau priodol ar gyfer y plant.

## 5.Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010:

**Rheoliad 16:** Nid oedd y gwarchodwr plant wedi gwneud trefniadau addas i sefydlu a chynnal system i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i'r plant. Dylid adolygu ansawdd y gofal o leiaf bob blwyddyn.

**Rheoliad 38:** Nid oedd y gwarchodwr plant wedi gwneud digon o drefniadau ar gyfer ymarferion tân ac arferion ar adegau addas er mwyn sicrhau y byddai'r plant yn gwbl ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn wrth wagio'r adeilad os bydd tân.

Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

Dylai'r gwarchodwr plant hefyd ystyried y canlynol:

- datblygu proses rheoli risgiau effeithiol drwy gwblhau asesiadau risg cynhwysfawr yn rheolaidd yn ogystal â'u hadolygu a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau y caiff diogelwch y plant ei hyrwyddo bob amser;
- rhoi prosesau ar waith i fonitro ac adolygu cyflwr adnoddau er mwyn adlewyrchu arferion hylendid da a rheoli heintiau effeithiol;
- sicrhau ei fod yn hawdd i'r plant gael gafael ar adnoddau drwy eu storio a'u labeli'n dda; a
- rhoi egwyddorion 'Iechyd Cyhoeddus Cymru, Atal a rheoli heintiau ar gyfer lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig'; golchi dwylo'r plant â sebon a dŵr a rhoi tywelion llaw unigol iddynt sychu eu dwylo ar ôl eu golchi.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 11 Ionawr 2019 rhwng 9:40pm a 11:50pm ac unwaith eto ar 15 Ionawr 2019 rhwng 4:00pm a 5:30pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion;
- siarad â'r plant;
- archwilio'r safle a'r adnoddau a ddefnyddir;
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant yn dilyn yr arolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwraig** |
| **Person Cofrestredig** | **Shelly Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **7:30am – 7:00pm<br>O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **31 Mawrth 2016** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **10 Ionawr 2019 a 15 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei defnyddio yn ystod y dydd ond mae'r dogfennau yn Saesneg yn unig.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |